# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-14-08)

**Dyddiad: 25 Mehefin 2008**
**Amser: 9:00 - 11:10**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mike German (Cadeirydd), Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Annette Stafford, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Kevin Mowbray, Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth, Canolfan Ymchwil Ynni Cymru
Yr Athro Stuart JC Irvine, Cadeirydd Adran Cemeg Deunyddiau Optoelectroneg, Prifysgol Cymru, Bangor
Miles Willis, Ynni Adnewyddadwy'r Môr, Prifysgol Cymru, Abertawe
Ian Draisey, Pennaeth Adran Farchnata, Dulas Cyf

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates a Karen Sinclair. Roedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod i ddirprwyo ar ran Mick Bates.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau allyriadau Carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni
### Papur: SC(3)-14-08 (p1)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Kevin Mowbray, Yr Athro Stuart JC Irvine a Miles Willis (a oedd yno ar ran Dr Ian Masters) i'r cyfarfod. Nid oedd Alex Lambie, Prif Swyddog Gweithredol Grwp Pwer Cymru Cyf, a oedd hefyd wedi ei wahodd, yn bresennol. Bu'r tystion yn amlinellu'r prif bwyntiau yn eu papur. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

2.2 Cytunodd yr Athro Irvine i ddarparu copi o ymateb y Ganolfan Ymchwil Ynni Cymru i Routemap Wales.

2.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r tystion wahodd Alex Lambie i anfon ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau y rhoddwyd sylw iddynt, os oedd yn dymuno.

2.4 Cynigiodd yr Athro Irvine i adael i'r Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach yr hoffai a gofynnwyd am i unrhyw geisiadau gael eu hanfon at Kevin Mowbray yn y lle cyntaf.

### Eitem 3: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: papur cwmpasu ar gynhyrchu ynni
### Papur: SC(3)-14-08 (p2)

3.1 Oherwydd diffyg amser, aildrefnwyd y papur cwmpasu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### Eitem 4: Papur i'w nodi: adroddiad ar ymweliad y Pwyllgor â'r Almaen ac Awstria i gasglu gwybodaeth fel rhan o'i ymchwiliad i leihau allyriadau carbon
### Papur: SC(3)-14-08 (p3)

4.1 Oherwydd diffyg amser, bydd hwn hefyd yn eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.